

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Sir Gâr

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Sir Gâr i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Sir Gâr bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Gâr 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Sir Gâr wedi perfformio'n dda yn gyson dros dair blynedd y fframwaith. Mae Sir Gâr wedi parhau i gofnodi rhai o'r perfformiadau uchaf y pen ar gyfer nifer yr ymwelwyr a defnyddwyr. Mae'r gwasanaeth yn un o bum awdurdod yn unig a fodlonodd y targed mewn perthynas â staff cymwysedig y pen. Ymunodd Sir Gâr â System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan ym mis Ebrill 2019, ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar wella'r gwasanaeth ar gyfer aelodau nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi. Mae'r cynnig i recriwtio dau brentis Makerspace yn ddatblygiad diddorol, ac mae gan hyn y potensial i gynyddu nifer yr aelodau a chael effaith gadarnhaol ar sgiliau digidol y cymunedau lleol. Mae cynigion ar gyfer loceri mewn mannau pellennig yn arloesol a bydd yn ddiddorol gweld effaith y rhain yn y dyfodol.

- Mae 98% o'r oedolion wedi cael profiad o'r llyfrgell fel lle diogel a chynhwysol y maent yn mwynhau mynd iddo, ac mae hyn yn uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Mae Sir Gâr wedi gweld cynnydd o 22% er 2017/18 yn nifer yr aelodau o lyfrgelloedd, ond gostyngiad yn nifer y benthycwyr gweithredol. Mae benthyciadau llyfrau wedi gostwng bron i 10% er 2018/19, ond mae benthyciadau llyfrau plant wedi cynyddu 85% ers y llynedd.
- At ei gilydd, mae lefelau staffio wedi cynyddu ychydig, ond maent yn parhau'n is na'r targed; mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r gofynion ar gyfer staff cymwysedig, ac mae'n un o bedwar awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny.
- Mae Sir Gâr yn parhau yn y chwarterl uchaf yng Nghymru ar gyfer cyfanswm gwariant referniw y pen.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn

unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Gâr yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Ymunodd Sir Gâr â System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan ym mis Ebrill 2019. Mae Strategaeth Llyfrgelloedd pum mlynedd Sir Gâr ar gyfer 2017-2022 yn parhau'n gyfredol a bydd yr arolwg o aelodau a gynhaliwyd yn 2019 yn sail i ddatblygu'r Strategaeth newydd.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Sir Gâr yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	√	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	X	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	

DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	X	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	X	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	X	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

At ei gilydd, mae Sir Gâr wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith. O'r naw targed, nid yw Sir Gâr yn cyflawni DA 12 mwyach (cyflenwi ceisiadau). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y dangosydd hwn heb ei gyflawni oherwydd bod y system rheoli llyfrgelloedd newydd yn cael ei rhoi ar waith. Cyfyngodd y system newydd ar fynediad i'r "modiwl ceisiadau" yn ystod 2019/20 tan rai misoedd i mewn i'r flwyddyn ariannol, ac nid oedd unrhyw opsiwn i ddiwygio ystadegau. Disgwylir y bydd mynediad llawn i'r modiwl adrodd ar gyfer unrhyw adroddiadau yn y dyfodol. Mae Sir Gâr ar y cyfan yn parhau'n un o'r awdurdodau sydd â'r cyflawniad gorau.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Gâr ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Hydref 2019.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	95%	=5/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	94%	=4/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Gâr ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Cynhwysiant Digidol – Yn dilyn ymholiad gan aelod o'r Llyfrgell ynglŷn ag e-lyfrau i blant sydd â dyslecsia, mae'r Llyfrgell wedi gallu hwyluso'r gwaith o ychwanegu

casgliad wedi'i guradu o e-lyfrau ar gyfer darllenwyr sydd â dyslecsia neu ddarllenwyr cyndyn at BorrowBox. Mae'r ymrwymiad hwn i roi'r profiad digidol gorau i ddefnyddwyr yn sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr wybodaeth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen, ac ar yr un pryd yn helpu pobl i fynd i'r afael â phroblemau mewn bywyd go iawn.

- Iolo Morganwg – Cynhaliodd llyfrgell gyfeiriol Sir Gâr arddangosfa i ddathlu dau gan mlynedd ers i Iolo Morgannwg wneud seremoni Gorsedd y Beirdd yn rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol. Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle i ddau wirfoddolwr weithio yn y Llyfrgell, a defnyddio sgiliau digidol yn fwyaf arbennig, gan eu helpu i gael hyder a gwella eu sgiliau. Roedd y manteision hefyd yn cynnwys ymgysylltu ag ysgolion lleol. Roedd plant ysgol yn rhyfeddu at gyfleusterau'r llyfrgell, er enghraifft sgrin werdd Makerspace y llyfrgell. Aeth un o'r gwirfoddolwyr yn ei flaen i gael swydd ar ôl y lleoliad.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Gâr ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	84%	7/18	25%	75%	94%	dd/b
c) iechyd a lles	86%	5/19	38%	69%	96%	dd/b
d) lle diogel a chroesawgar	98%	=5/19	90%	96%	100%	dd/b
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=7/18	78%	91%	99%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	98%	=10/18	88%	97%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	88%	=10/17	65%	85%	99%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	97%	=10/18	85%	96%	100%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	8.5	=17/19	8.0	9.1	9.5	9.1
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	6,291	2/22	2429	3987	6874	6,524
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,233	2/22	239	909	2131	1,627
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	128	13/22	78	145	244	89
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	671	10/22	310	680	1468	636
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	11	4/22	4	9	14	11
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	22%	14/22	14%	30%	64%	25%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£17,693	4/22	£7,260	£12,448	£23,333	£19,449
b) % ar staff	53%	18/22	48%	61%	76%	47%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=6/22	5%	13%	22%	13%
% ar offer ac adeiladau	4%	=13/22	0%	8%	28%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	31%	3/22	1%	18%	35%	37%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0.00	=22/22	£0	£1,567	£13,027	£7,044
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	1.00%	21/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.04%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	2.58%	19/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.64%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Sir Gâr ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Hydref 2019. Mae'r canlyniadau yr un fath ar y cyfan â'r arolwg diwethaf a gynhaliwyd yn 2016/17. Roedd 98%

o'r oedolion yn gweld y llyfrgell fel lle diogel a chynhwysol y maent yn mwynhau mynd iddo, ac mae hyn yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Roedd 95% o'r plant yn meddwl bod y llyfrgell wedi eu helpu i ddysgu a dod i wybod pethau, a rhoddasant sgôr gyfartalog o 8.5 allan o 10 i'r llyfrgell. Mae hyn wedi gostwng ychydig ers yr arolwg diwethaf a gynhaliwyd. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu cefnogaeth lawn ac amrywiol ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a llesiant yn cael eu cefnogi'n dda hefyd.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae cau llyfrgell Crosshands dros dro ar gyfer gwaith adnewyddu hefyd wedi effeithio ar ffigurau ymwelwyr yn Sir Gâr, sydd wedi gweld gostyngiad o bron i 3% ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Er hyn, mae ymweliadau fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n uchaf ond un yng Nghymru. Mae Sir Gâr yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Mae Sir Gâr wedi gweld cynnydd o 22% er 2017/18 yn nifer yr aelodau o'r llyfrgell, ond gostyngiad yn nifer y benthycwyr gweithredol. Er bod benthyciadau llyfrau ar gyfer oedolion wedi gostwng bron i 10% er 2018/19, Sir Gâr sydd â'r perfformiad gorau yng Nghymru yn y maes hwn o hyd. Mae benthyciadau llyfrau plant wedi cynyddu 85% ers y flwyddyn ddiwethaf, ac erbyn hyn mae ychydig yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Dywedodd y gwasanaeth fod y cynnydd mawr yn nifer y llyfrau plant a fenthycwyd wedi digwydd o ganlyniad i gywiro cofnodion catalog a oedd wedi'u gosod yn y lle anghywir wrth uno System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan. Yn ychwanegol at hyn, yn ystod 2019/20, mae llyfrgelloedd Sir Gâr wedi cynyddu eu capasiti i gynnal ymweliadau rheolaidd ag ysgolion, ac wedi datblygu cynllun newydd, ac o ganlyniad, roedd ysgolion yn gallu benthycu faint bynnag o stoc roedd arnynt ei eisiau yn seiliedig ar ofynion y cwricwlwm. Gwelwyd gostyngiad mewn ymweliadau rhithwir a lawrlwythiadau electronig, ond mae Sir Gâr yn parhau yn y chwarter uchaf yng Nghymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Er bod gostyngiad bach yn y gwariant ar ddeunyddiau yn 2019/20, ynghyd â gostyngiad yng nghyfanswm yr eitemau wedi'u caffael fesul pen o'r boblogaeth, mae'r gwasanaeth yn nodi bod y ffigur hwn wedi'i effeithio gan ganslo danfon llyfrau ym mis Mawrth o ganlyniad i Covid-19.

Mae canran y gwariant ar ddeunyddiau i blant wedi aros yr un fath, sef 15%, sy'n unol â Strategaeth Llyfrgell Sir Gâr. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi llawer iawn mewn deunyddiau darllen cyfoes, a dim ond un gwasanaeth llyfrgell arall yng Nghymru sydd â mwy o wariant ar gaffaeliadau fesul pen o'r boblogaeth. Mae'r targed ar gyfer DA 9 (caffaeliadau) yn parhau i gael ei gyflawni. Mae Sir Gâr yn un o bump awdurdod sydd wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae dyraniadau cyllidebol ar gyfer adnoddau plant ac ar gyfer deunydd Cymraeg ill dau wedi gostwng, ond mae DA 10 (y Gymraeg) yn cael ei gyflawni'n llawn. Mae benthyciadau adnoddau Cymraeg hefyd yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd o'i gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r ddarpariaeth gyfrifiaduron personol wedi cynyddu ychydig, er bod gostyngiad bach yn y defnydd ohonynt. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau wedi gostwng yn sylweddol, ac nid yw'r targedau ar gyfer DA 12 yn cael eu bodloni mwyach. Mae'r awdurdod yn nodi bod cyfrifiadau'n seiliedig ar lyfrgelloedd rhanbarthol yn unig. Byddai ystyriaeth ychwanegol o'r ffactorau sydd ar waith yn fuddiol yma.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu unwaith eto yn 2019/20 ac maent yn parhau'n uwch na'r canolrif. Dim ond un gwasanaeth arall yng Nghymru sydd â mwy o staff fesul pen o'r boblogaeth na Sir Gâr. Er hyn, nid yw'r targed ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth wedi'i gyflawni. Mae nifer y staff cymwysedig wedi cynyddu ychydig, ac mae Sir Gâr yn un o bedwar awdurdod yn unig sydd wedi cyflawni'r targed a nodwyd yn y maes hwn. Mae arweinyddiaeth gymwysedig ar waith o hyd, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff.

Mae Sir Gâr yn parhau yn y chwarterl uchaf yng Nghymru ar gyfer cyfanswm gwariant refeniw fesul pen o'r boblogaeth, ond mae wedi gweld gostyngiad mewn cynhyrchu incwm er 2017/18, y gellir ei briodoli'n rhannol i ganslo gwasanaethau a chau adeiladau yn Chwefror/Mawrth 2020 o ganlyniad i Covid-19. Mae oriau agor wedi gostwng, ond nodir mai dim ond 3% yn is na blwyddyn adrodd 2018/19 fyddai'r oriau agor pe na bai'r gwasanaethau wedi cau o ganlyniad i Covid-19. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod un llyfrgell wedi'i chau dros dro ar gyfer adleoli. Mae'r gwasanaeth yn un o bum awdurdod sydd wedi cynnwys oriau agor di-staff fel rhan o'i ddarpariaeth.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae'r cynlluniau'n seiliedig ar y dyheadau a amlinellwyd yn y Strategaeth Llyfrgell, sy'n canolbwyntio ar y pum darpariaeth gyffredinol, sef dysgu, gwybodaeth, darllen, digidol ac iechyd. Mae'n amlwg bod y nodau hyn yn gydnaws â nifer o Strategaethau Llywodraeth Cymru, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ond nid yw Sir Gâr wedi cyfeirio at bolisi'r Llywodraeth yn ei naratif.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth wedi'i hamlinellu yn niweddariad Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Gâr (2017-22). Mae rhagor o gynlluniau i barhau i ddatblygu'r cynllun Makerspace llwyddiannus. Mae Sir Gâr yn gobeithio recriwtio dau Brentis Makerspace mewn partneriaeth â'r coleg lleol. Gallai'r ychwanegiad hwn wella tîm Llyfrgelloedd Sir Gâr a datblygu gwasanaeth sy'n allweddol i rôl ehangach Gwasanaethau Llyfrgell yn Sir Gâr. Bwriedir canolbwyntio ar fannau a gwasanaethau digidol yn y dyfodol. Mae cynlluniau hefyd i gyflwyno loceri mewn mannau pellennig yn Sir Gâr. Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnig darpariaeth hunanwasanaeth i aelodau a fydd yn gallu codi llyfrau sy'n cael eu cadw iddynt mewn lleoliadau mwy cyfleus, ar adegau mwy cyfleus, mewn amgylchedd diogel lle gellir cadw pellter cymdeithasol.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Sir Gâr wedi perfformio'n dda yn gyson dros dair blynedd y fframwaith. Mae Sir Gâr wedi parhau i gofnodi rhai o'r perfformiadau uchaf y pen ar gyfer nifer yr ymwelwyr a defnyddwyr. Mae'r gwasanaeth yn un o bedwar awdurdod yn unig a fodlonodd y targed mewn perthynas â staff cymwysedig y pen. Ymunodd Sir Gâr â System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan ym mis Ebrill 2019, ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar

wella'r gwasanaeth ar gyfer aelodau nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi. Mae'r cynnig i recriwtio dau brentis Makerspace yn ddatblygiad diddorol, ac mae gan hyn y potensial i gynyddu nifer yr aelodau a chael effaith gadarnhaol ar sgiliau digidol y cymunedau lleol. Mae cynigion ar gyfer loceri mewn mannau pellennig yn arloesol a bydd yn ddiddorol gweld effaith y rhain yn y dyfodol.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.